**COFNODION O GYFARFOD CYNOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AR 27 MEDI 2022 AM 7:00YH DRWY ZOOM.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Anne Lawton, Gwynedd Williams, Philip Roberts, Hefin Jones, Richard Robinson, Berwyn Parry Jones, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Alan Pritchard

**Clerc:** Meirion Jones

**1022. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod ac yn enwedig i'r aelodau newydd sef y Cynghorwyr Ann Lawton a Gwynedd Williams. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am fod mor barod i ymgymryd a'r rôl ac i gydweithio er lles y gymuned.

**1023 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1024. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1025. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Awst 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1026. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd fod y biniau wedi eu gosod yn y lleoliadau a gytunwyd gyda Cyngor Gwynedd ar wahân i un bin ger Y Bwlch. Nodwyd fod pobl yn taflu bagiau baw cŵn i finiau yn perthyn i drigolion lleol.

**Penderfynwyd:** Cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os fyddai yn bosib rhoi bin baw cŵn yn y lleoliad yma

**1027. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**1028. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**1029.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**1030.** **I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyfarfod yn y fynwent ar yr 20fed o Fedi 2022. Ymysg y materion a drafodwyd oedd blaenoriaethau'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn gyfredol a nodwyd y canlynol

Adroddwyd fod pris wedi dderbyn am gynnal asesiad risg ond fod angen eglurhad ar beth yn union sydd yn cael ei asesu am y pris.

Nodwyd fod angen edrych ar faint o'r cofebion sydd wedi trin yn dilyn asesiad risg llynedd

Fod yr hysbysfwrdd wedi ei archebu

Fod angen pwrcasu arwyddion i atgoffa pobl i gau giatiau yn y fynwent ar eu hol (hyn mewn llaw)

Angen plac i nodi'r gofod yn y llecyn newydd (hyn mewn llaw)

Fod angen adolygu rheolau cyfredol y fynwent a byddai yn gyfle i wneud hyn yn ystod misoedd y gaeaf

Y ffordd i'r fynwent – adroddwyd fod cyflwr y ffordd wedi ei ddwyn at sylw Cyngor Gwynedd ar fwy nac un achlysur ond nad oedd yn flaenoriaeth. Nodwyd fod y ffordd wedi dirywio ers hyn ac fod angen ei ail gyfeirio at Cyngor Gwynedd.

Cystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn – adroddwyd ein bod wedi dod yn y tri brig uchaf yn y gystadleuaeth ar gyfer mynwentydd i gynghorau cymuned a thref ar draws y Deyrnas Unedig, ond ar hyn o bryd ddim yn ymwybodol a pa wobr. Mae'r canlyniadau i fod allan heddiw ond hyd yma dim wedi dderbyn.

**Penderfyniad:**

Derbyn a diolch am yr adroddiad.
Cysylltu a Cyngor Gwynedd eto am gyflwr y ffordd i'r fynwent

**1031.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.** **https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0138/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Cais i godi sied at ddefnydd storio peiriannau

**Ymgeisydd:** Mr Richard Link

**Asiant:** Mr Eric Hughes

**Cyfeiriad:** Fferm Glan Seiont, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ

**Cyfeirnod Grid:** 252326.33, 363937.47

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C22/0772/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Ymestyn y tŷ presennol i'r storfa a'r gwagle gyfochrog ynghyd ac ymgymryd a newidiadau allanol.

**Ymgeisydd:** Miss Ceri Griffith

**Asiant:** Mr Kevin Shipton (Ks Architecture)

**Cyfeiriad:** The Vestry, Capel Mawr Ffordd Crawia, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AE

**Cyfeirnod Grid:** 253477.43, 363508.17

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi’r cais

c) **Rhif y Cais:** C22/0808/23/YA

**Math o Gais:** Hysbysiad ymlaen llaw (Amaeth/Coed)

**Bwriad:** Sied beiriannau agored gyda bondo blaen crog

**Ymgeisydd:** Mr Gwynn Jones

**Asiant:** Mr Gareth Rennie (Hafod Planning Consultants)

**Cyfeiriad:** Fferm Garth Isaf, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4HJ

**Cyfeirnod Grid:** 252282.8, 361422.04

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**d)** **Rhif y Cais:** C22/0805/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd a modurdy domestig ar wahan, ynghyd a newidiadau i fynedfa gerbydol bresennol.
**Ymgeisydd:** Mr Alun Williams (Cefn Du Construction Ltd)

**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)

**Cyfeiriad:** Lleifior, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AN

**Cyfeirnod Grid:** 254046.54, 363252.43

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi gyda ystyriaeth i'r ddau lythyr sydd wedi cyflwyno

**e)** **Rhif y Cais:** C22/0810/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Adeiladu ty newydd a llecynnau parcio

**Ymgeisydd:** Mr J M Owen

**Asiant:** Mr A G Jones

**Cyfeiriad:** Dolwen, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DE

**Cyfeirnod Grid:** 255095.51, 362840.98

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynbu’r cais am y rhesymau canlynol

- Fod y datblygiad arfaethedig allan o gymeriad
- Fod gan y gymuned leol breeder o beth sydd yn mynd i ddod a’r adeilad
- Ei fod yn orddatblygiad
- Fod diffyug lle parcio

f) **Rhif y Cais:** C22/0839/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Cais deiliaid ty ar gyfer porth newydd i'r blaen, ymestyn y modurdy presennol ymhellach ymlaen, disodli'r lolfa haul cefn presennol gyda estyniad unllawr ynghyd a ffenestr gromen newydd i'r to gan ddarparu ail law i gynnwys ystafell wely en-suite Newydd

**Ymgeisydd:** Miss Ellie Owen

**Cyfeiriad:** 39 Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PR

**Cyfeirnod Grid:** 253591.9, 363255.1

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

Penderfynwyd: Cefnogi’r cais ond amodau ar y ffenestr, pryder o weledigaeth o’r ffenestr i fewn i ystafell aros a cytuno a sylwadau Dwr Cymru

**1032. Cau Allan y cyhoedd a’r wasg - fod y cyngor yn penderfynu atal y cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd trafodaethau ar faterion personol**

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi

Caiff corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (p'un ai yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r achos; a phan fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod yn agored i'r cyhoedd yn ystod achos y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo.

**Penderfynwyd:** Doedd dim aelod o’r cyhoedd yn bresennol

**1033. Llenwi seddi gwag ar y cyngor – diweddariad**

I benderfynu os am gyfethol darpar aelod sydd wedi datgan diddordeb o eistedd ar y cyngor ac os ei gyfethol, awdurdodi'r clerc i wneud y trefniadau perthnasol

Argymhellir bod y cyngor yn cychwyn y broses ffurfiol o hysbysebu seddi gwag ar y cyngor

**Penderfynwyd:** Nodwyd fod cais wedi dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn mynegi diddordeb i eistedd ar y cyngor. Roedd yr ymgeisydd wedi anfon pwt am ei hyn ac fe gylchredwyd rhwng yr aelodau.

I gyfethol Emyr Jones i eistedd ar y cyngor

Y clerc i wneud y trefniadau ar gyfer llenwi y dair sedd wag

Daeth y cyfarfod i ben am 20:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 18 Hydref 2022